



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

CANLLAWIAU BRAND

Sut i ddefnyddio ein hunaniaeth weledol.

Sut i ddefnyddio ein hunaniaeth weledol.

01 EIN GWELEDIGAETH	Yr hyn y mae Prifysgol Bangor yn ei gynrychioli a sail ein hunaniaeth weledol.
02 HUNANIAETH WELEDOL	Canllaw i ddefnyddio ein prif hunaniaeth brand craidd mewn print ac ar ffurfiau digidol ac is-frandiau.
03 ELFENNAU BRAND	Canllaw i’n hasedau hunaniaeth a’n manylebau gweledol.
04 TEMPLEDI	Oriel o ddulliau creadigol o ddefnyddio ein hunaniaeth

Mynegai:

01 EIN GWELEDIGAETH	03
Ein gwerthoedd brand, yr hyn rydym yn ei gynrychioli	
02 HUNANIAETH WELEDOL	05
Ein nod brand	06
Prif liwiau corfforaethol	06
Defnyddio ein hunaniaeth brand	07
Lleoli brand	08
Ymylon, maint a strwythur grid	08
Defnydd digidol	09
Hunaniaeth is-frandiau	09
Lliwiau brand a chyfuniadau lliw	10
Teipograffeg	11
Defnyddio ein ffurfdeip corfforaethol	12
Defnyddio ein teipograffeg	13
03 ELFENNAU BRAND	14
Dyfeisiau brand I	15
Defnydd	16
Dyfeisiau brand II	17
Defnydd	18
04 TEMPLEDI	20
Taflen/llyfryn recriwtio	21
Hysbysebu	21
Adroddiadau corfforaethol	22
Cyflwyniadau PowerPoint	22
Dillad y brifysgol	23
Cerbydau’r brifysgol	23



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



**RYDYM YN BRIFYSGOL SAFON
AUR TEF ADNABYDDUS.**

Bydd yn eithriadol





EIN GWELEDIGAETH

Ein gwerthoedd brand, yr hyn rydym yn ei gynrychioli.



Ein gweledigaeth

I'r rhai sydd am ddatblygu a llwyddo, mae Prifysgol Bangor yn agor byd o gyfleoedd, yn rhoi cyfle ichi herio a cael eich herio, ac yn ysgogi'r eithriadol.

Gwerthoedd brand

Bydd Prifysgol Bangor yn darparu:

Eangfrydedd
Cyfle
Her

I alluogi

Addysgu a datblygu

I greu

Yr eithriadol





HUNANIAETH WELEDOL

Canllaw i ddefnyddio ein hunaniaeth brand
mewn print ac ar ffurfiau digidol.

Ysgogi’r eithriadol

Dyma’r egwyddor arweiniol sy’n diffinio ein brand ac sy’n sail i’r hyn a wnawn. Ein nod brand yw’r hyn sy’n gwneud brand y brifysgol yn unigryw ac mae’n ganolog i’n holl negeseuon gweledol.

Mae ein nod brand yn dyrchafu popeth mae’n ei gyffwrdd. Rhaid i ni roi blaenoriaeth i’r nod brand - hwn ddylai fod yr elfen fwyaf hanfodol a gweladwy o’n negeseuon bob amser.

O’i weithredu’n gyson, bydd ein nod brand yn helpu myfyrwyr, staff a rhanddeiliaid i ddeall yn well pwy ydym ni, ein gweledigaeth a’n gwerthoedd.

Ein nod brand

Prif logoteip a’r logo terfynol



Mae’r logo wedi ei lunio i sicrhau cydbwysedd rhwng ei esthetig a’i eglurder. Rhaid peidio â newid, aflunio nac addasu graddfa a chyfran yr arfbais, yr elfennau teipiedig na’u perthynas rhyngddibynnol mewn unrhyw ffordd.

Mae’r logo’n cynnwys yr arfbais a’r elfennau teipiedig ac ni ddylid gwahanu’r ddau heb ganiatâd y Prif Swyddog Marchnata a’r Is-lywydd Rhyngwladol.




Logo eilaidd wedi ei alinio i’r chwith



Mae ein prif logo wedi ei ganoli. Gellir defnyddio logo eilaidd ond dim ond os yw’r gofod a’r cynllun yn golygu mai dyma’r defnydd mwyaf priodol.

Prif Liwiau Corfforaethol

Mae ein lliwiau corfforaethol sylfaenol i’w defnyddio yn/gyda’n hunaniaeth. Mae’r rhain yn debygol o gael eu defnyddio mewn cyhoeddiadau corfforaethol, megis adolygiadau blynyddol. Dylid bob amser ystyried eu defnydd a’u heffaith ar weledd y nod brand.



Defnyddio ein hunaniaeth brand

Amrywiadau ar y logo

Lliw

Mae ein lliwiau corfforaethol yn unigryw i’n hunaniaeth brand ac rydym yn eu defnyddio ym mhob un o’n negeseuon.

Dim ond yn y lliwiau hyn y mae ein logo yn ymddangos, neu’r cyfan mewn du i gyd neu wedi ei wrthdroi mewn gwyn.

Prif hunaniaeth graidd

Dyma brif fersiwn lliw ein logo. Dylid ei ddefnyddio yn y lle cyntaf yn ein holl negeseuon.

Amrywiadau

Weithiau bydd angen amrywiad ar ein logo. Mae’r fersiynau hyn yn cynnal ein brand yn ei gyfanrwydd.

Amrywiad 1 - Teip gwyn

Pryd bynnag y defnyddir ein dynodwyr ar gefndir lliw neu ffotograffig, mae elfennau’r darian yn aros yr un fath a gellir gwrthdroi enw’r brifysgol mewn gwyn.

Amrywiad 2 - Du i gyd

Dylid defnyddio’r fersiwn hwn o’r logo mewn cyfryngau mono fel hysbysebion un lliw neu sgrin-brintio ar nwyddau.

Amrywiad 3 - Gwyn i gyd

Dylid defnyddio’r fersiwn hon o’r logo pan nad yw’r prif logo ac amrywiad 1 i’w gweld yn glir.

Prif hunaniaeth graidd



Amrywiad 1 - Teip gwyn



Amrywiad 2



Amrywiad 3

Enghreifftiau o ffurfiau eraill

Isod ceir enghreifftiau sy’n dangos sut i ddewis yr amrywiad lliw mwyaf priodol ar gyfer cefndir y cyfrwng.

Hunaniaeth graidd



Amrywiad 1



Amrywiad 2



Amrywiad 3

Lleoliad brand mewn print

Defnydd/maint cyson

Lleoliad y logo

Mae’n hanfodol ein bod yn defnyddio ein logo yn gyson yn ein holl ddeunyddiau. Byddem yn argymhell defnyddio’r lleoliad arferol yn y gornel dde uchaf. Dylai’r hunaniaeth fod yn lled 45mm ar ddeunydd maint A4.

Mae’r brif leoliad ar y dde ym mhob neges, ond efallai y bydd adegau pan fydd rhaid defnyddio logo wedi ei ganoli, e.e. ar standiau arddangos a standiau baner lle mae lle yn brin. Rhaid i ddylunwyr sicrhau gwelededd y logo, mae hyn yn hanfodol i’w leoliad.

Yn yr achos hwn, y dylunydd ddylai benderfynu ar faint o fwch ddylid ei adael rhwng brig y deunydd a’r logo.

Rhaid cadw lle gwag o amgylch y logo a dylid defnyddio’r logo yn unffurf yn yr holl ddeunyddiau.

Teitlau

Dylai teitlau dogfennau gael eu gosod mewn mannau ffotograffig clir a dylent fod yn hollol ddarllenadwy.


Rydym yn defnyddio ymyl 12.5mm ar bob tudalen ac yn ein holl ddogfennau, gyda strwythur grid pedair colofn. Rhaid i’r teitl gyd-fynd â’r strwythur hwn, gweler y grid gyferbyn.

Gofodau gwag

Er mwyn gwneud y mwyaf o’i bresenoldeb gweledol, rhaid bod y lle o amgylch y logo yn rhydd o unrhyw elfennau graffig neu destun arall.

Rhaid i’r gofod gwag lleiaf fod yn hafal i uchder y teip. Dylid caniatáu o leiaf hyn o le gwag o amgylch testun y logo.

Mae’n bwysig bod y rheol hon yn cael ei dilyn a bod y lle gwag yn cael ei gadw’n wag bob amser.



Prif leoliad ar y dde uchaf



Prif leoliad wedi ei ganoli

Ymylon, maint a strwythur grid

Maint cyson

Mae angen maint a lleoliad cyson i’r logo er mwyn cynnal system frandio bendant.


Isod ceir canllawiau ar gyfer maint logo a bylchau ymylon wrth ddefnyddio ein hunaniaeth ar ddau fformat safonol.

A4
Ar ffurf portread a thirlun Lled lleiaf 45mm

Ymyl chwith/dde 12.5mm
Ymyl brig/gwaelod 12.5mm

A5
Ar ffurf portread a thirlun Lled lleiaf 40mm

Ymyl chwith/dde 10mm
Ymyl brig/gwaelod 10mm



System grid fodiwlaid


System grid gyda phedair colofn fodiwlaid sy’n sail i’n cyhoeddiadau brand.

Mae’n ychwanegu strwythur ac yn helpu i greu cydnabyddiaeth brand.

Gellir ei addasu i gyd-fynd â lefelau amrywiol o wybodaeth a phob math o gynnwys. Dylid ei ddefnyddio fel canllaw i osod testun a delweddau.

Rydym yn defnyddio’r grid hwn ar yr holl waith cyhoeddi ar dudalennau mewnol gydag ymyl 12.5mm o amgylch y cyfan ar ffurf A4. Defnyddiwch led gwter o 4.233mm.

Anogir dylunwyr i ddefnyddio’r strwythur hwn fel canllaw yn unig a gallent arbrofi gyda chynlluniau eraill, megis copi wedi ei ganoli, etc. Gweler ein hadran ‘defnydd’ am enghreifftiau o sut i ddefnyddio ein strwythur grid mewn modd hyblyg.




Defnydd digidol

Gwefan a chyflwyniadau

Amrywiad defnydd cyfyngedig

Mae ein prif logo wedi ei ganoli. Gellir defnyddio'r logo eilaidd hwn at ddefnydd digidol ac argraffu ond dim ond os yw'r lle a'r cynllun yn golygu mai dyma'r defnydd mwyaf priodol.

Dyma'r dewis cyntaf ar gyfer deunydd digidol y brifysgol pan mae lle yn brin. Gall y dylunydd neu'r datblygwr ddewis y maint ond rhaid i'r Adran Farchnata ei gymeradwyo.



Defnydd ar wefan




Defnydd ar Powerpoint

Is-frandiau a defnydd

Is-frandiau a defnydd

Er mai nod brand llawn y brifysgol ddylai fod y prif logo a ddefnyddir ar bob neges allanol bob amser, gall is-frandiau feddu ar eu logo eu hunain fel ffordd o gael eu hadnabod a chyfeirio pobl atynt, er mwyn nodi gweithrediadau unigol y brifysgol.



Rheolau defnydd:

Gellir defnyddio is-frand ar ei ben ei hun pan fydd i'w weld yn fewnol ar y campws yn unig. Os oes unrhyw debygolrwydd y caiff ei weld oddi ar y campws/yn allanol, yna rhaid defnyddio'r is-frand gyda'r prif logo.

Dyluniad is-frandiau

Mae ein his-frandiau'n defnyddio fersiwn graffig syml o'n prif darian. Mae'r fersiwn hwn yn syml ac yn fodern iawn o ran arddull, ac mae'n cynrychioli ein gwerthoedd modern a'n treftadaeth. Mae'n well defnyddio'r prif liwiau, sef coch, melyn a du, ond rhoddir ystyriaeth i liwiau eraill yn amodol ar gymeradwyaeth gan yr Adran Farchnata.



Trefniant is-frand byrrach. Dylid defnyddio trefniant is-frand byrrach os nad oes digon o le i'r fersiwn uchod.

Is-frand enghreifftiol


Dyma enghraifft o is-frand a ddefnyddir gyda'n prif logo. Mae'r is-frand wedi ei leoli 12.5mm o frig y ddogfen ar yr ochr dde, gyda lled o 75mm o leiaf. Mae'r prif logo wedi ei alinio â brig a gwaelod yr is-frand, 12.5mm i mewn o'r ymyl chwith.

Ar fformatau llai, dylai'r is-frand fod yn 65mm o led a dylid lleoli'r prif logo ar y dde isaf, 12.5mm o'r ymyl ar yr ochr dde a'r ymyl gwaelod. Dylid defnyddio bloc ychwanegol o liw solet i osod y prif logo er eglurder.


Mae ein prif logo bob amser mewn du pan gaiff ei ddefnyddio ar y cyd ag is-frand.

Mae ein harwyddion mewnol yn defnyddio hunaniaeth yr is-frand yn unig, heb unrhyw brif logo.

Defnydd is-frand allanol ar ffurf A4



Defnyddio is-frand allanol gyda fersiynau llai



Enghraifft o arwyddion mewnol



Lliwiau brand

Mae lliw a'r ffordd rydym yn ei ddefnyddio, yn agwedd hanfodol ar ein hunaniaeth weledol. Rhaid ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd, uchelgeisiau ein brand a'n credoau brand.

Nid yw hon yn system liw gymhleth nac yn ymgais i bennu lliw i bob agwedd ar y brifysgol. Mae hyn yn ymwneud â chyfleu'r egni, yr angerdd a'r diwylliant yr ydym yn eu creu fel prifysgol.

Prif Liwiau Corfforaethol

Mae'r lliwiau hyn i'w defnyddio'n bennaf gyda'n logo/nod brand. Dylid ystyried yn ofalus cyn defnyddio coch a melyn y tu allan i'r logo ac ni ddylid ei ordddefnyddio. Ni ddylid byth defnyddio'r logo lliw llawn ar gefndir coch neu felyn.

Pantone 1805 C C5 M96 Y76 K22 R184 G34 B51 #b82233	Pantone 124 C C0 M32 Y100 K0 R253 G180 B21 #ebb415	Black C0 M0 Y0 K100 R0 G0 B0 #000000	White C0 M0 Y0 K0 R255 G255 B255 #FFFFFF
---	---	---	---

Palet lliw eilaidd Rydym yn fodern ac yn flaengar

Yn ategol at y prif liwiau, ceir palet o un ar bymtheg o liwiau sy'n dwyn ynghyd y lliwiau nodedig gyda lliwiau cryfach er mwyn caniatáu hyblygrwydd a rhyddid - ond rhaid eu defnyddio mewn modd meddylgar bob amser gan ddilyn ein hegwyddorion allweddol ar gyfer defnyddio lliw.

Mae'r lliwiau'n cynrychioli ein brand a'n prifysgol. Beiddgar, hyderus, modern, llawn egni ac uchelgeisiol. Mae'r lliwiau hyn yn cynrychioli ein uchelgeisiau brand a'n credoau brand. I'w defnyddio ym mhob neges farchnata.

Pantone 105-16 C C100 M68 Y0 K39 R0 G57 B115 #003973	Pantone 76-8 C C0 M100 Y0 K23 R190 G0 B104 #be0068	Pantone 116-4 C C54 M0 Y0 K13 R107 G185 B220 #6bb9dc	Pantone 104-15 C C85 M58 Y0 K12 R45 G93 B159 #2d5d9f
Pantone 154-7 C C53 M0 Y85 K0 R140 G192 B75 #8cc04b	Pantone 34-7 C C0 M64 Y84 K0 R238 G118 B51 #ee7633	Pantone 55-8 C C0 M98 Y71 K0 R229 G19 B58 #e5133a	Pantone 75-4 C C0 M38 Y0 K0 R246 G185 B213 #f6b9d5
Pantone 46-6 C C0 M74 Y74 K18 R203 G84 B57 #cb5439	Pantone 10-8 C C0 M27 Y100 K0 R252 G191 B0 #fcbf00	Pantone 93-16 C C75 M100 Y0 K13 R93 G31 B119 #5d1f77	Pantone 101-16 C C100 M94 Y0 K60 R26 G20 B73 #1a1449
Pantone 150-14 C C63 M0 Y78 K47 R67 G119 B61 #43773d	Pantone 124-6 C C74 M0 Y31 K0 R0 G179 B186 #00b3ba	Pantone 159-16 C C48 M0 Y100 K60 R80 G105 B14 #50690e	Pantone 70-14 C C0 M81 Y27 K44 R155 G54 B81 #9b3651

Palet lliw trydyddol Ein hanes, ein treftadaeth a'n tirwedd

Mae Prifysgol Bangor yn llawn hanes a threftadaeth. Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn amgylchynu ein lleoliad. Er mwyn adlewyrchu'r elfennau hyn, rydym wedi creu palet o liwiau cynnil, sydd hefyd yn ymgorffori ein hamgylchedd: cerrig, llechi,

tywod, dŵr, coedwig, caeau a'r môr. Rydym yn defnyddio'r palet hwn i gefnogi ein prif liwiau a'n lliwiau eilaidd. Nid ydym yn adranoli'r defnydd o'n lliwiau. Darllenwch yr adran 'elfennau'r brand' er mwyn gweld sut i ddefnyddio lliw.

Pantone 178-8 C C54 M42 Y57 K0 R139 G138 B118 #8b8a76	No Pantone Reference C4 M0 Y30 K20 R212 G210 B171 #d4d2ab	Pantone 56-16 C C0 M89 Y73 K60 R121 G14 B23 #790e17	Pantone 100-4 C C42 M40 Y0 K10 R151 G145 B190 #9791be
Pantone 152-15 C C61 M0 Y86 K31 R88 G142 B59 #588e3b	Pantone 117-4 C C47 M0 Y0 K22 R119 G177 B206 #77b1ce	Pantone 170-7 C C54 M50 Y50 K0 R140 G127 B123 #8c7f7b	Pantone 174-15 C C65 M48 Y37 K52 R67 G77 B87 #434d57
No Pantone Reference C100 M86 Y0 K77 R14 G12 B53 #0e0c35	Pantone 177-6 C C57 M40 Y52 K0 R130 G140 B127 #828c7f	Pantone 43-16 C C42 M65 Y64 K60 R89 G57 B48 #593930	Pantone 17-8 C C0 M43 Y100 K0 R246 G160 B0 #f6a000

Defnyddio cyfuniadau o liwiau

Rydym yn defnyddio lliw yn syml ac yn hyderus, mae'r lliwiau rydym yn eu dewis, y ffordd rydym yn eu defnyddio a'r egwyddorion sy'n dylanwadu ar eu defnydd yn hanfodol wrth gyfathrebu pwy ydym ni.

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos sut gall gwahanol gyfuniadau lliw yn eich cynlluniau dylunio weithio mewn gwahanol farchnadoedd e.e. ysgolion israddedig vs. ysgolion ymchwil.



Defnyddir y darian i ddangos enghreifftiau o gyfuniadau lliw yn unig. Ni ddylid eu defnyddio mewn negeseuon.

Teipograffeg

Ffurfdeip ein brand

Y prif ffurfdeip:
Aktiv Grotesk yw ein llais.

Ffont: Aktiv Grotesk
Pwysau: Regular,
Medium a Bold
<https://fonts.adobe.com/fonts/aktiv-grotesk>

GRYMU

Rhyddid i feddwl.



Y prif ffurfdeip

Y prif ffont ar gyfer ein holl ddeunydd farchnata yw Aktiv Grotesk (Regular, Medium a Bold), ac rydym yn ei ddefnyddio er mwyn sicrhau cysondeb yng nghyflwyniad ein holl ddeunyddiau.

Pam Aktiv Grotesk?

Ffont unigryw a modern sy'n dyrchafu ein brand ac yn ein helpu i gyfathrebu'n eglur. Aktiv yw'r ffont craidd yn ein hunaniaeth weledol

ac mae'n gyfystyr â'n brand. Defnyddir y ffont i greu arddull argraffyddol eglur, cryf a modern ar gyfer ein holl negeseuon. Mae'n hyblyg ac mae ganddo lawer o wahanol ddefnyddiau yn ein deunyddiau print a digidol.

Defnyddiwyd ar gyfer penawdau ar gloriau, ar gyfer paragraffau cyntaf ar daflenni, copi testun a'r holl negeseuon brand, e.e. hysbysebion, arddangosfeydd ac ymgyrchoedd.

Ffurfdeip eilaidd i'w ddefnyddio mewn cyflwyniadau yn unig

Os na ellir defnyddio ein ffont sylfaenol at ddibenion cyflwyno, defnyddiwyd y ffont eilaidd:

Arial - Regular (corff y testun)
Arial - Medium (is-benawdau)
Arial - Bold (prif benawdau)

AaBbCcDdEe0123
AaBbCcDdEe0123
AaBbCcDdEe0123

ABCDEFGHIJKLMNOPQRSTUVWXYZ
abcdefghijklmnopqrstuvwxyz
0123456789

Defnyddio ein ffurfdeip

Aktiv Grotesk Regular
Aktiv Grotesk Medium
Aktiv Grotesk Bold

YSGOGI'R
EITHRIADOL

Rhyddid i greu.



Dylai penawdau yr holl negeseuon brand fod mewn priflythrennau mewn ffont trwm gyda thracio -20pt.

Y dylunydd ddylai dewis maint y ffont. Dylai is-benawdau fod mewn llythrennau bach mewn ffont canolig, gyda thracio -20.

ARWAIN
Y MAES

Bydd yn eithriadol.

Cyfleu ein neges

Yn ddelfrydol, dylai'r testun pennawd fod wedi ei ganoli ac mewn priflythrennau mewn ffont trwm gyda'r is-bennawd wedi ei ganoli ac mewn llythrennau bach.

Cyferbyniad

Rhaid bod digon o gyferbyniad i bob testun fod yn ddarllenadwy yn erbyn unrhyw fath o gefndir.

Defnyddio ein teipograffeg

Enghreifftiau o Aktiv Grotesk
mewn cynlluniau dylunio



Defnyddir Aktiv Grotesk Regular ar gyfer corff y testun a gellir ei alinio i'r chwith neu ei ganoli mewn cynlluniau dylunio (gweler gyferbyn).



Defnyddir Aktiv Grotesk Medium ar gyfer is-benawdau.





ELFENNAU BRAND

Dyfeisiau ein brand a sut i'w defnyddio.

Dyfeisiau brand I

Symleiddio’r brand craidd

Rydym wedi datblygu dyfeisiau brand graffig ategol sy’n defnyddio elfennau o’r hunaniaeth graidd fel sylfaen.

Datblygwyd y dyfeisiau hyn er mwyn helpu i ehangu iaith brand y brifysgol a dylid eu defnyddio ym mhob neges.

Dyfais# 1 - Amlinelliad y darian

Mae’r ddyfais hon yn cynrychioli siâp ein tarian a’n harfbais, ar eu ffurf lleiaf. Rydym yn defnyddio’r ddyfais hon yn ein cyhoeddiadau a’n hysbysebu. Gellir ei defnyddio gyda’r prif hunaniaeth graidd a hebddi. Mae’n cynrychioli’r brifysgol heb yr angen i ddefnyddio ein tarian pob tro. Gellir ei defnyddio ar ffotograffau neu flociau o liw. Y dylunydd ddylai dewis lliw y ddyfais.

Maint
Dylai llinell y darian fod yn 1.6mm o drwch, yn seiliedig ar faint A4. Dim ond traean o’r darian neu lai rydym yn ei ddefnyddio. Gellir ei defnyddio wedi ei halinio i’r chwith neu’r dde.

Gweler yr enghreifftiau gyferbyn a’r enghreifftiau canlynol



Enghraifft 1

Defnyddio’r graffig amlinellol ar ben ffotograff.

Ceisiadau

Enghraifft 2

Defnyddio'r darian dros ddwy dudalen.



Enghraifft 3

Defnyddio'r darian i dynnu sylw at ddyfyniadau, gwybodaeth ffeithiol a phroffilio astudiaethau achos.



Proffil academiaidd

Dyfeisiau brand II

Tarian graffig


Dyfais #2 - Tarian

Mae'r ddyfais hon yn cynrychioli siâp a dyraniad ein tarian a'n harfbais. Rydym yn defnyddio'r ddyfais graffig symlach hon ym mhob neges.

Gellir ei defnyddio mewn dwy ffordd, fel dyfais tagio brand canolog mewn cynlluniau dylunio ac mewn datganiadau brand allweddol a chopi pennawd. Gellir defnyddio ei siâp a'i llinellau mewnol hefyd gyda delweddau unigol a lluosog er bod y pwrpas hwn yn bennaf at ddiben recriwtio yn unig, gweler y templedi recriwtio.

Gellir ei defnyddio gyda'r brif hunaniaeth graidd a hebddi. Mae'n cynrychioli'r brifysgol heb yr angen i ddefnyddio ein harfbais bob tro.

Gweler yr enghreifftiau gyferbyn a'r enghreifftiau canlynol.



Enghraifft 1


Defnyddio'r darian fel dyfais tagio brand ar y cyd â theipograffeg effeithiol.



Defnydd

Enghraifft 2

Defnyddio delweddau lluosog o fewn dyraniad y darian, a tharian graffig fel dyfais tagio brand.



Enghraifft 3

Defnyddio delweddau unigol
cyfan o fewn dyraniad y darian
ac fel tag dyfynnu.



Defnydd

Enghraifft 4

Gellir defnyddio tarian lawn gyda delweddau lluosog yng nghyd-destun amryw o wahanol bynciau, er enghraifft mewn negeseuon gan ysgol/ coleg. Dylid defnyddio'r dull hwn hefyd yn bennaf fel cyfeiriad ar gyfer deunyddiau recriwtio.

Enghraifft 5

Dyluniad baner yn integreiddio tarian delwedd lluosog at ddibenion recriwtio.



Baner recriwtio



TEMPLEDI

Templedi brand i ddylunwyr a swyddogion
marchnata gyfeirio atynt.

Recriwtio

Taflen/Llyfryn

Rydym yn defnyddio Dyfais #1, amlinelliad y darian, i greu deunyddiau hysbysebu a recriwtio ar gyfer ymgyrchoedd staff a myfyrwyr.

Y ffont a ddefnyddir yn ein prif negeseuon yw Aktiv Grotesk Bold, mewn priflythrennau. Gweler ein hadran 'Teipograffeg' ac 'Elfennau Brand' am ragor o fanylion.

Dylai ein deunyddiau recriwtio arwain gyda'r ddelwedd â'r thema 'arbennig'. Defnyddir delweddau cyfoes gydag arddull bendant a modern i gefnogi gweledigaeth y brifysgol a negeseuon brand allweddol. Dylai'r themâu natur agored, cyfle, arbennig, dysgu a datblygiad ddylanwadu ar y ddelwedd byddwch yn ei dewis wrth ddefnyddio ffotograffau stoc.

Llyfryn A4



Taflen A5



Hysbysebu

Rydym yn defnyddio Dyfais #1, amlinelliad y darian, i greu deunyddiau hysbysebu a recriwtio ar gyfer ymgyrchoedd staff a myfyrwyr.

Y ffont a ddefnyddir yn ein is-benawdau yw Aktiv Grotesk Bold, mewn priflythrennau. Gweler ein hadran 'Teipograffeg' am ragor o fanylion.

Dylai ein deunyddiau recriwtio arwain gyda'r ddelwedd â'r thema 'arbennig'.

Defnyddir delweddau cyfoes gydag arddull bendant a modern i gefnogi gweledigaeth y brifysgol a negeseuon brand allweddol. Dylai'r themâu natur agored, cyfle, arbennig, dysgu a datblygiad ddylanwadu ar y ddelwedd byddwch yn ei dewis wrth ddefnyddio ffotograffau stoc.

Hysbysebu at ddibenion recriwtio staff



Hysbysebu at ddibenion recriwtio myfyrwyr



Corfforaethol


Adroddiadau corfforaethol

Mae ein gwaith dylunio corfforaethol yn defnyddio ein palet corfforaethol craidd yn bennaf, sef coch, melyn, du a gwyn. Mae ein dyluniadau corfforaethol yn symlach o lawer na dyluniadau recriwtio a hysbysebu, gan roi mwy o le i'r delweddau.

Rhaid i'n negeseuon corfforaethol fod yn ddeinamig ac yn ddeniadol. Rhaid i grewyr ddilyn yr un canllawiau dylunio a rheolau ag a ddangosir yn yr adrannau 'Hunaniaeth Weledol' ac 'Elfennau Brand'.

Defnyddir delweddau cyfoes gydag arddull bendant a modern i gefnogi gweledigaeth y brifysgol a negeseuon brand allweddol. Dylai'r themâu natur agored, cyfle, arbennig, dysgu a datblygiad ddylanwadu ar y ddelwedd byddwch yn ei dewis wrth ddefnyddio ffotograffau stoc.

Llyfryn A4



Prif Gyflwyniadau/Cyflwyniadau PowerPoint:

Rhaid i'n cyflwyniadau fod yn ddeinamig ac yn ddeniadol. Rhaid i grewyr ddilyn yr un canllawiau dylunio a rheolau a ddangosir yn yr adrannau 'Hunaniaeth Weledol' ac 'Elfennau Brand'.






Gellir lawrlwytho cyfres o dempledi o wefan y brifysgol. Defnyddir delweddau cyfoes gydag arddull bendant a modern i gefnogi gweledigaeth y brifysgol a negeseuon brand allweddol. Dylai'r themâu natur agored, cyfle, arbennig, dysgu a

datblygiad ddylanwadu ar y ddelwedd byddwch yn ei dewis wrth ddefnyddio ffotograffau stoc.

Ffurfdeip eilaidd i'w ddefnyddio mewn cyflwyniadau yn unig
Os na ellir defnyddio ein prif ffont at ddibenion cyflwyno, defnyddiwch y

ffont canlynol:

- Arial - Regular (corff y testun)
- Arial - Medium (is-benawdau)
- Arial - Bold (prif benawdau)



Dillad y brifysgol

Defnyddio'r brand

Rydym yn defnyddio Dyfais #1, amlinelliad y darian, i frandio ein dillad gwaith prifysgol. Mae'r ddyfais amlinellol wedi ei hargraffu ar y tu blaen yn unig yn ein palet corfforaethol, gyda'r lliw gwyn yn cefnogi'r rhain. Defnyddir gwyn ar gyfer pob copi er mwyn sicrhau bod yr ysgrifen yn ddarllenadwy.

Ar gyfer siacedi gwaith, defnyddir yr is-frandio ar y blaen yn unig, gyda'n prif logo ar du ôl y dillad gwaith.



Cerbydau'r brifysgol

Defnyddio'r brand

Rydym yn defnyddio Dyfais #1, amlinelliad y darian, i frandio cerbydau'r brifysgol. Mae'r amlinelliad yn mynd o Pantone 124 C (melyn) i Pantone 1805 C (coch).

Defnyddir hwn ar y cyd â'r is-frandio perthnasol ac URL y wefan, daw'r enghraifft hon o'r adran Ystadau a Chyfleusterau. Mae'r dyluniad hwn wedi ei ddatblygu i weithio ar gerbydau du a gwyn. Dim ond ar ochr y cerbyd y dylid gosod yr is-frandio, dylid defnyddio ein prif logo ar gefn y cerbyd gyda URL ein gwefan.





PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Prifysgol Bangor
Bangor, Gwynedd, LL57 2DG

Ffôn:: 01248 351151
E-bost: marketing@bangor.ac.uk
Mae Prifysgol Bangor yn elusen gofrestredig: rhif 1141565

www.bangor.ac.uk